**Siân Gwenllian AS/MS**
**Gweinidog Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio**
**Cabinet Minister for Local Government, Housing and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/SG/1691/26

Y Cynghorydd Dylan Rees
Cadeirydd, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

dylanrees@anglesey.gov.wales
executiveassistants@northwalesfire.gov.wales
dawn.docx@northwalesfire.gov.wales

3 Awst 2026

Annwyl Gynghorydd Rees,

Rhannodd fy swyddogion fy Natganiad Ysgrifenedig dyddiedig 13 Gorffennaf â chi ynglŷn â pharhad yr ymyrraeth yn Awdurdod Tân ac Achub De Cymru tan ar ôl etholiadau llywodraeth leol yn 2027. Ysgrifennaf yn awr i nodi beth mae hyn yn ei olygu i lywodraethiant tân ac achub ledled Cymru gyfan ac i gadarnhau fy ymrwymiad i gyflawni trefniadau llywodraethiant sy'n effeithiol, yn gynaliadwy ac sy'n gweithio ar gyfer y tri Awdurdod Tân ac Achub (FRAs).

Mae'r dyddiad gweithredu ar gyfer y diwygiadau llywodraethiant a'r newidiadau aelodaeth yn dal heb newid ar gyfer FRA Gogledd Cymru o'r hyn a nodir yng Ngorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol ac Amrywio Cynlluniau Cyfunol) (Cymru) 2026. Bydd y trefniadau newydd yn dod i rym yn dilyn etholiadau llywodraeth leol yn 2027.

Fel y byddwch yn gwybod, nododd y Llywodraeth flaenorol y byddai FRA Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru yn cael cyfle i ddysgu o'r profiad o roi'r newidiadau hyn ar waith yn FRA De Cymru yn gyntaf, ac addasu i'r profiad hwnnw, cyn i'r diwygiadau gael eu cyflwyno ledled Cymru. Er y bydd yr ymyrraeth yn FRA De Cymru yn parhau, mae gwaith eisoes ar y gweill yn Ne Cymru i baratoi ar gyfer y trosglwyddiad yn ôl i reolaeth leol yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwnnw'n cynnwys datblygu strwythurau llywodraethiant newydd, trefniadau cyfansoddiadol a gweithrediad ymarferol y model newydd ar gyfer awdurdodau.

Welsh Government Offices, Cathays Park,
Cardiff. CF10 3NQ
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays,
Caerdydd. CF10 3NQ

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Sian.Gwenllian@llyw.cymru
Correspondence.Sian.Gwenllian@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr iaith honno ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd y gwersi a ddysgir o'r gwaith hwnnw yn werthfawr i FRA Canolbarth a Gorllewin Cymru ac FRA Gogledd Cymru, a bydd cydweithwyr yn Ne Cymru yn rhannu gwybodaeth berthnasol gyda chi yn ystod 2026-27 i gefnogi eich cynlluniau a'ch paratoadau eich hun.


Mae fy swyddogion wedi rhannu'r deunyddiau hyfforddi a datblygu ar gyfer aelodau'r FRA, a ddatblygwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ynghyd â'n disgwyliadau ninnau ynghylch ymgysylltu ag awdurdodau etholiadol fel rhan o'r broses o bennu cyllideb. Gellir defnyddio'r deunyddiau hynny yn awr neu yn y dyfodol, i gefnogi'r gwaith paratoi ar gyfer y trefniadau newydd. Bydd fy swyddogion hefyd yn ymgysylltu â Phrif Swyddogion Tân ar yr ystyriaethau ymarferol a'r amseriadau sy'n gysylltiedig â gweithredu, gan gynnwys penodi aelodau ychwanegol.

Ochr yn ochr â'r trefniadau llywodraethiant ehangach hyn, bu newid diweddar hefyd i arweinyddiaeth yr ymyrraeth yn Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.
Fel y gwyddoch, mae Carl Foulkes wedi penderfynu camu i lawr o'i rôl fel Comisiynydd.
Rwyf wedi penderfynu penodi cyn Ddirprwy Brif Gwnstabl a Phrif Gwnstabl
Heddlu Dyfed-Powys, Claire Parmenter, yn Gomisiynydd newydd.

Wrth inni symud ymlaen, rwyf wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn parhau i gydweithio i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r newidiadau hyn yn llwyddiannus. Hoffwn ddiolch i chi am eich ymgysylltiad a'ch cefnogaeth barhaus wrth inni weithio gyda'n gilydd i gryfhau llywodraethiant tân ac achub yng Nghymru.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Prif Swyddog Tân Dawn Docx ac yn ysgrifennu llythyr o'r un fath at y Cynghorydd John Davies.

Yn gywir,



**Siân Gwenllian AS/MS**
Gweinidog Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio